OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 649 (Cy.73)

# YSTADEGAU SWYDDOGOL, CYMRU

## Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013

*Gwnaed - - - - 12 Mawrth 2013*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 6(1)(b) a (2) o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007(**1**).

Yn unol ag adran 6(3) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Bwrdd Ystadegau.

Yn unol ag adran 65(7) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013 a daw i rym ar 1 Ebrill 2013.

**Ystadegau Swyddogol — ystadegau swyddogol sydd yn gyfan gwbl yn ystadegau datganoledig Cymru**

**2.** I'r graddau nad ydynt fel arall yn ystadegau swyddogol yn rhinwedd adran 6(1)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007, mae'r ystadegau sydd yn gyfan gwbl yn ystadegau datganoledig Cymru(**2**) a gynhyrchir, neu sydd i'w cynhyrchu, gan y personau a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, wedi eu pennu'n ystadegau swyddogol at ddibenion adran 6(1)(b) o'r Ddeddf honno.

*Jane Hutt*
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, un o Weinidogion Cymru

12 Mawrth 2013

(**1**) 2007 p.18.

(**2**) Mae i "ystadegau datganoledig Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh devolved statistics" a ddiffinnir yn adran 66(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

Corff Adnoddau Naturiol Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 6(1)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ("y Ddeddf") yn darparu bod ystadegau a gynhyrchir gan y Bwrdd Ystadegau, adran o'r llywodraeth, Gweinyddiaeth yr Alban, un neu ragor o awdurdodau Gweinidogion Cymru (sef, Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, neu Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru), adran yng Ngogledd Iwerddon, neu unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran y Goron, yn ystadegau swyddogol.

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 6(1)(b) a (2) o'r Ddeddf, sy'n caniatáu i orchmynion gael eu gwneud i bennu personau eraill yn gynhyrchwyr ystadegau swyddogol. Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi bod yr ystadegau a gynhyrchir, neu sydd i'w cynhyrchu, gan y personau a restrir yn yr Atodlen yn ystadegau swyddogol. Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i ystadegau datganoledig Cymru fel y'u diffinnir yn adran 66 o'r Ddeddf.